

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod: 07.03.2017**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

**Presennol: Y Cyngorwyr ; Arwel Nicholas, Danny Davies, Dylan Jones, Mike Poston, Carolyn Smethurst, Elfed Davies, Pamela Jones, Cynghorydd Sir, Irfon Jones**  
**Ymddiheuriadau: Wyn Thomas**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Penderfyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Angen cywirio sillafiad 'Irfon', yn y Saesneg. Cafwyd yn gywir gan DJ & DD	
Materion yn Codi	<p><b>CS</b> – Ydy'r Adran Briffyrdd yn ymwybodol o gyflwr heol y Bryn? Clerc yn dweud ei fod wedi dwyn y mater I sylw'r Adran, <b>AN</b> yn canmol y gwaith mae'r Adran Briffyrdd wedi neud ar heol y Garreg Hir</p> <p><b>CS</b> – Rhywfaint o ddatblygiad ym mater Band Eang, BT yn addo diweddariad ar y sefyllfa ar ôl 21.03.2017</p> <p><b>AN</b> – Mast Clarke Telecommunications; wedi hysbysu Cyngor y Gymuned o'u bwriad I godi mast ar gyfer 4G ar safle y gwaith trin carthion. Dim gwrthwynebiad oddi wrth y Cynghorwyr</p> <p><b>CS</b> – Angen trefnu cyfarfod gyda J McEvoy unwaith eto er mwyn trafod gwneud newidiadau I gyffordd Rhiw Cŵpers.</p> <p><b>Clerc</b> wedi cael gwybodaeth ynglyn a diweddaru <b>goleuadau'r stryd I LED</b>; mi fydd yr Adran sydd a chyfrifoldeb dros wneud y gwaith cynnal a chadw yn trosi'r goleuadau pan fydd eu hoes yn dod I ben. Cost newid y llusern yw £160.</p> <p><b>Swyddfa Etholiadau</b> wedi danfon Pecynnau Ymgeisio I'r Cynghorwyr ar gyfer eholiadau'r Sir ar 04.05.2017</p>	
Gohebiaeth	<p><b>CS</b> – Yn tynnu sylw at Fwletin Un Llais Cymru oedd yn cyfeirio at gynlluniau Mark Drakeford I ad-drefnu Llywodraeth Leol; gallai fod goblygiadau sylweddol I gyllyd Sir Gâr os fydd y penderfyniadau yn cael eu gwneud yn Abertawe.</p> <p><b>DD</b> – Blychau BT, angen trefnu I'w addasu; trafod yr hyn sydd angen ei wneud gyda CS. Penderfynnwyd yn unfrydol I ofyn I Hedydd Rees I'w harddu</p> <p><b>Gwyl Gerdd Dant</b> a gynhelir eleni yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul</p> <p><b>DD</b> – O blaid cefnogi'r Wyl. PJ yn ategu at sylwadau <b>DD. CS &amp; MP</b> yn cynnig hysbysebu'r Wyl am ddim. Trafodwyd amseru'r cyfraniad a chytunwyd I wneud y taliad ym Mis Tachwedd, pryd, yn ôl arfer y Cyngor cefnogir achosion da. Cynigiodd <b>DD</b> gyfranu o leiaf £300 ac efallai mwy os na fydd</p>	

	costau etholiad. <b>ED</b> yn eilio. <b>CS</b> yn gofyn am wybodaeth ychwanegol er mwyn hysbysu'r Wyl yn LlyLI. Clerc I gysylltu gyda'r Trefnwyr er mwyn cael mwy o wybodaeth.	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	<b>Trywydd</b> , Cyfieithu, £64.50 – DJ & PJ <b>Cyflog y Clerc</b> , £130.60 – DD £ ED <b>Goleuadau a Thrydan</b> , £2,335.97 – ED &DD	
UFA	Clerc yn gofyn I <b>PJ</b> ddisgrifio lladrad y Blwch Halen ar waelod Rhiw Pantydrw. Clerc wedi gofyn I'r Adran Briffyrdd a oedd dwyn blychau yn digwydd yn aml ac eithriad yw eu lladrad, y graean sydd yn arferol o ddiplannu! Clerc I ysgrifennu am y digwyddiad yn LlyLI. <b>PJ</b> – Dim <b>MP</b> – Yn cyfeirio at siarter Diogelu Tafarnau Lleol; pe bai son am y Railwe yn cau, fyddai modd ei ddiogelu ar gyfer y gymuned <b>CS</b> – Menter 'Community Speed'; trigolion lleol yn monitor cyflymdra trafndiaeth. Angen siarad gyda'r Heddwes Gymunedol Martin Dickenson. Am wybod am ba hyd fydd y graean yn cael ei gadw yn arosfan Cŵpers – Clerc I holi! <b>IJ</b> – Dim <b>ED</b> – Dim <b>DJ</b> – Consyrrn gan rhai modurwyr am gynydd peryg diffyg gweld tro Nebo ar ôl plygu'r clawdd; a oes modd gosod arwydd o rhybydd yno? <b>DD</b> – Pa bryd y gwneuthir gwelliannau ar dro Maenllwyd, y dŵr yn parhau I fod yn drafferth.	
Cyfarfod yn gorffen	9.10	

Cafwyd yn gywir : .....	Cafwyd yn gywir : .....
(Cadeirydd)	(Ysgrifennydd)
Dyddiad : .....	Dyddiad: .....